WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Darlun Cymharol o Wasanaethau Orthopedeg

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**Dyddiad:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod:** 231A2015

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar sail gwaith gafodd ei wneud dan y Government of Wales Act 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Sian Davies, Andrew Doughton, Kate Febry, Delyth Lewis a Stephen Lisle dan gyfarwyddyd David Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waitih gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 2032 0500, e-bostiwch: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teil y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad cryno | 4 |
| 1 | Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | 14 |
| | Darpariaeth gofal sylfaenol | 14 |
| | Atgyfeiriadau gan feddygon teulu | 17 |
| | Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol | 19 |
| 2 | Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | 23 |
| | Gwasanaethau cleifion allanol | 23 |
| | Gwasanaethau ffisiotherapi | 27 |
| | Gwasanaethau radioleg | 29 |
| 3 | Gwasanaethau i gleifion preswyl | 31 |
| | Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty | 31 |
| | Derbyniadau | 35 |
| | Aros yn yr ysbyty | 36 |
| | Rhyddhau cleifion | 37 |
| 4 | Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | 41 |
| | Trefniadau dilynol | 41 |
| | Canlyniadau a phrofiad cleifion | 42 |
| | Atodiadau | |
| | Ffynonellau data | 46 |

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad gorfodol lleol o wasanaethau orthopedeg ledled Cymru. Nod yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: A yw gwasanaethau orthopedeg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ac a ydynt yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd gynaliadwy? Mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi'u cyflwyno mewn adroddiad cenedlaethol, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**.

2 Fel rhan o'r fethodoleg a oedd yn sylfaen i'r adolygiad, aethom ati i gasglu amrywiaeth o ddata er mwyn deall perfformiad gwasanaethau orthopedeg presennol ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein harolwg o wasanaethau orthopedeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) a'n barn ar sut mae'r gwasanaeth yn cymharu â gweddill Cymru.

3 Rydym wedi seilio ein harolwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio llwybr y claf. Rydym wedi casglu'r data o ffynonellau amrywiol (gweler Atodiad 1), a'r data a ddefnyddir yw'r data mwyaf a oedd ar gael adeg cyflwyno'r adroddiad. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad o'r data wedi'u cyflwyno ym mhrif ran yr adroddiad hwn, ond mae'r negeseuon lefel uchel wedi'u cyflwyno yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 2 yn asesiad cryno sy'n defnyddio statws goleuadau traffig i ddangos sut mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu â gweddill Cymru o safbwynt pob dangosydd, a, lle mae'n berthnasol, gyda thargedau Llywodraeth Cymru.

Arddangosyn 1: Negeseuon lefel uchel

Er bod lefel dda o fuddsoddi mewn gofal sylfaenol a bod atgyfeiriadau am wasanaethau orthopedeg i'w gweld yn lleihau, mae llawer o atgyfeiriadau'n cael eu cyfeirio'n artiffisial drwy wasanaethau ffisiotherapi, sy'n methu ymdopi â'r galw. Wedi cyrraedd y llwybr orthopedig, mae gwasanaethau i gleifion allanol ac i gleifion preswyl yn annigonol ar y cyfan ac mae canlyniadau cymysg i gleifion:

- mae lefel gadarnhaol o fuddsoddi mewn gofal sylfaenol gyda lleihad mewn atgyfeiriadau am wasanaethau orthopedeg, ond nid yw'r Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) yn gweithredu yn unol â'i bwrpas gwirioneddol, sy'n arwain at gyfeirio atgyfeiriadau drwy wasanaethau ffisiotherapi;
- mae gwasanaethau i gleifion allanol yn aneffeithlon gyda lefelau uchel o apwyntiadau dilynol, cleifion na fynychodd apwyntiadau a chanslo apwyntiadau, ac mae gwasanaethau ffisiotherapi a radioleg yn methu bodloni'r galw;
- gallai hyd arhosiad a'r defnydd dilynol o gapasiti gwelyau orthopedeg gael ei wella'n sylweddol felly drwy gynyddu cyfraddau cleifion allanol, derbyniadau ar ddydd llawdriniaeth a'r defnydd o theatrau; ac
- mae trefniadau dilynol yn gweithio'n dda ar y cyfan er bod canlyniadau o ymyriadau llawfeddygol yn gymysg ar draws y Bwrdd Iechyd ac mewn cymhariaeth â gweddill Cymru.

Arddangosyn 2: Asesiad cryno

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol?** | | |
| Mwy o fuddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol cyhyrysgerbydol | Mae gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol ar gyfer problemau cyhyrysgerbydol wedi cynyddu 29 y cant rhwng 2010 a 2013. | |
| Cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol | Gwariant cyfartalog ar ofal sylfaenol fesul pen o'r boblogaeth (£19.60) yw'r uchaf yng Nghymru. | |
| Cyfran cyfanswm y gwariant cyhyrysgerbydol sy'n cael ei dyrannu i ofal sylfaenol | Mae cyfran cyfanswm y gwariant cyhyrysgerbydol ar ofal sylfaenol yr ail uchaf yng Nghymru (15.4 y cant). | |
| Amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu | Mae amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu yn llai cynhwysfawr na byrddau iechyd eraill. | |
| Derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth | Mae'r graddau y mae cleifion yn derbyn ymyriadau amgen cyn cael llawdriniaeth yn uchel, gyda llai o ddibyniaeth ar liniaru poen hefyd. | |
| **A yw'r galw am wasanaethau gofal eilaidd yn cael ei reoli?** | | |
| Cyfradd atgyfeirio meddygon teulu | Mae'r gyfradd atgyfeirio meddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Tuedd o ran atgyfeiriadau | Mae'r duedd o ran atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn lleihau, a dyma'r unig duedd sy'n lleihau yng Nghymru. | |

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r CMATS yn gweithredu'n effeithiol?** | | |
| Mae CMATS ar waith | Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS yn ei strwythur gwasanaethau presennol yn 2011. | |
| Trefniadau gweithredol CMATS | Mae CMATS yn cydymffurfio ag egwyddorion allweddol Llywodraeth Cymru ac eithrio cynnal clinigau mewn canolfannau lleol a chyfranogiad meddygon teulu. | |
| Lefelau staffio CMATS | Lefel y staff fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu yw'r uchaf yng Nghymru. | |
| Cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS | Cafodd 84.9 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd asesiad wyneb yn wyneb gan CMATS. Mae hyn yn cymharu'n sylweddol uchel a gall adlewyrchu llwyth gwaith ffisiotherapi ehangach. | Dangosydd disgrifiadol |
| Amseroedd aros ar gyfer asesu wyneb yn wyneb gan CMATS | Y cyfnod aros cyfartalog rhwng atgyfeirio a chael asesiad CMATS wyneb yn wyneb yw 13 wythnos, sy'n fwy na tharged wyth wythnos Llywodraeth Cymru. Mae cyfnodau aros yn cael eu cyfrif fel arosiadau ffisiotherapi sy'n anghyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau i gleifion allanol yn effeithiol?** | | |
| Amseroedd aros am apwyntiadau cleifion allanol cyntaf | Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf wedi cynyddu, er bod perfformiad yn dal yn is na sefyllfa Cymru gyfan. | ● |
| Sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol | Nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon yw'r uchaf yng Nghymru. | Dangosydd disgrifiadol |
| Clinigau cleifion allanol a ganslwyd | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfran y clinigau cleifion allanol a ganslwyd. | - |
| Cymarebau apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd | Y gymhareb apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd (2.3) yw'r ail uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru (1.9). | ● |
| Cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau | Mae cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru, sef 8.7 y cant o apwyntiadau newydd ac 13 y cant o apwyntiadau dilynol. Y gyfradd cleifion na fynychodd apwyntiadau dilynol yw'r uchaf yng Nghymru. | ● |
| Cleifion yn canslo apwyntiadau | Cyfradd y cleifion sy'n canslo apwyntiadau yw 5.7 y cant ar gyfer apwyntiadau newydd a 10.7 y cant ar gyfer apwyntiadau dilynol. | ● |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cydgysylltu ymweliadau | Roedd wyth deg wyth y cant o gleifion yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio cydgysylltu'r ymweliadau amrywiol y mae'n rhaid iddynt eu gwneud. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cost fesul ymweliad claf allanol | Y gost fesul presenoldeb claf allanol yw'r isaf yng Nghymru, sef £71.92 am bob ymweliad claf allanol. | |
| **A yw gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi | Mae canran y cleifion sy'n aros llai nag wyth wythnos (78 y cant) wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ond nid yw cleifion yn aros mwy nag 14 wythnos mwyach. | |
| Lleoliadau amrywiol | Mae gwasanaethau ffisiotherapi yn cael eu darparu mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol ac aciwt, er nad oes darpariaeth mewn lleoliadau sylfaenol. | |
| Mynediad hwylus | Nid yw cleifion yn gallu eu hatgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i'r gwasanaeth ffisiotherapi eto. | |
| Argaeledd gwasanaethau | Mae gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol yn parhau i gael eu darparu ar ffurf gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol gan amlaf. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau radioleg yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer profion radioleg o bob math | Mae amseroedd aros ar gyfer profion radioleg yn cynyddu ac mae perfformiad yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. |  |
| Cyfraddau atgyfeirio MRI | Mae cyfradd yr atgyfeiriadau ar gyfer sganiau MRI gan feddygon teulu yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ond yn uwch ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol. |  |
| Amseroedd aros am sganiau MRI | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy nag wyth wythnos am sganiau MRI wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson ers 2012. |  |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A oes tystiolaeth bod trefniadau’n ymwneud â thriniaethau llawfeddygol yn effeithiol?** | | |
| Trefniadau asesu cyn llawdriniaeth | Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaethau ar waith ac maent yn gyson ledled y Bwrdd Iechyd. |  |
| Cael asesiad cyn llawdriniaeth | Cafodd pob claf a oedd yn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd asesiad cyn llawdriniaeth cyn cael ei dderbyn, ond cafodd 27 y cant asesiad lai na thair wythnos cyn y llawdriniaeth. |  |
| Triniaethau sy’n cael effaith glinigol gyfyngedig | Mae cyfradd y triniaethau sy’n cael effaith glinigol gyfyngedig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer trigolion Rhondda Cynon Taf, ond yn uwch ar gyfer trigolion Merthyr Tudful. |  |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfraddau cleifion allanol Cymdeithas Llawdriniaeth Ddydd Prydain | Mae canran y triniaethau orthopedig a argymhellir sy'n cael eu cwblhau fel achosion cleifion allanol yn is na tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysbyty Tywysog Siarl (65 y cant) ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg (70 y cant). | |
| Cyflwyno 'ysgol y cymalau' [1] | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu 'ysgol y cymalau' er mai dim ond yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg y mae hyn ar gael ar hyn o bryd. | |
| Amseroedd aros am lawdriniaeth | Roedd canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn i'r ysbyty yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn 2013 ond mae wedi gostwng ers hynny. | |
| **A yw nifer y gwelyau'n cael ei ddefnyddio yn effeithiol?** | | |
| Derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth | Canran y cleifion sy'n cael eu derbyn ar ddiwrnod eu llawdriniaeth yw'r isaf yng Nghymru yn Ysbyty Tywysog Siarl ac yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. | |
| Gostyngiad yn nifer y gwelyau i gleifion preswyl | Mae nifer y gwelyau orthopedeg wedi lleihau 9.4% rhwng 2010-11 a 2013-14. | Dangosydd disgrifiadol |
| Defnyddio gwelyau | Mae cyfraddau defnyddio gwelyau wedi gostwng ychydig is na'r lefel optimaidd (85 y cant) ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae amrywiaeth rhwng safleoedd gwahanol, gyda 90.5 o welyau'n cael eu defnyddio yn Ysbyty Tywysog Siarl. | |

[1] Mae ysgolion y cymalau'n darparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth orthopedig, gan gynnwys cyfle i gleifion ymarfer ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd eu hangen arnynt ar ôl y llawdriniaeth.

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw capasiti theatrau llawdriniaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol?** | | |
| Defnyddio theatrau | Mae perfformiad yn amrywio rhwng 80 a 93 y cant ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Mae hyn yn dal yn is na tharged Llywodraeth Cymru (95 y cant). | |
| Llawdriniaethau a ganslwyd | Mae cyfradd y llawdriniaethau a ganslwyd a'r sesiynau theatr a ganslwyd ill dau'n uchel, gyda 34.7 y cant o restrau'n cael eu canslo yn Ysbyty Tywysog Siarl. | |
| **A yw hyd arhosiad cleifion mor fyr â phosibl?** | | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol | Hyd arhosiad cyfartalog cleifion orthopedig dewisol yw 4.5 diwrnod, sy'n uwch na tharged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru. Hwn yw'r hyd arhosiad hiraf yng Nghymru. | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael cluniau a phengliniau newydd yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg,<br>ond mae ymysg yr uchaf yng Nghymru yn Ysbyty Tywysog Siarl. | |
| Cost fesul cyfnod claf preswyl | Mae cost gyfartalog cyfnod orthopedig dewisol yn yr ysbyty yn y Bwrdd Iechyd (£3,960) yn is na chost gyfartalog Cymru gyfan. | |
| Cost prosthetig fesul cyfnod claf preswyl | Mae cost gyfartalog prosthesisiau fesul cyfnod ar gyfer y Bwrdd Iechyd wedi gostwng i £415.65 sy'n is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cost fesul claf allanol | Mae cost claf allanol orthopedeg dewisol (£1,225) yn agos at gost cyfartalog Cymru gyfan. | |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cost fesul diwrnod gwely claf preswyl | Mae cost diwrnod gwely claf preswyl dewisol (£1,133) yn is na chost gyfartalog Cymru gyfan. | ● |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw cleifion yn cael apwyntiad dilynol?** | | |
| Apwyntiadau dilynol | Cafodd pob claf apwyntiad dilynol ar ôl cael ei ryddhau o’r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. | ● |
| Trefnir apwyntiadau dilynol o fewn yr amserlenni a argymhellir | Cafodd naw deg saith y cant o gleifion apwyntiad dilynol o fewn chwe wythnos a thri mis i gael eu rhyddhau yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. Dyma’r ganran uchaf yng Nghymru. | ● |
| **A yw cymhlethdodau niweidiol yn cael eu hosgoi a’r manteision gorau posibl yn deillio o lawdriniaethau?** | | |
| Heintiau mewn Safleoedd Llawfeddygol (SSIs) | Mae’r gyfradd SSIs ar gyfer cluniau a phen-gliniau yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ym mhob safle ysbyty, ar wahân i SSI yn dilyn gosod clun newydd yn Ysbyty Tywysog Siarl, sy’n 2.6 y cant. Targed Llywodraeth Cymru yw sero y cant. | ● |
| Cyfraddau aildderbyn cleifion i’r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae’r gyfradd aildderbyn cleifion yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun a phen-glin newydd yn llawer is na chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |
| Cyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedig dewisol | Ni chafodd unrhyw farwolaethau eu hadrodd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn derbyniadau orthopedeg dewisol yn 2012-13. Mae cyfraddau marwolaeth o fewn 30 diwrnod i ryddhau o’r ysbyty ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau | Mae’r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd oddeutu cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer trigolion Rhondda Cynon Taf, ond y gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod pengliniau newydd ym Merthyr Tudful yw’r uchaf yng Nghymru (1.4 y cant). | |
| Gwella symptomau | Dim ond 70 y cant o gleifion Ysbyty Brenhinol Morgannwg ddywedodd fod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau’n rhannol neu’n sylweddol. Dyma’r ymateb isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, dywedodd pob claf a holwyd yn Ysbyty Tywysog Siarl iddynt weld gwelliant. | |


Rhan 1

# 1 Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol

## Darpariaeth gofal sylfaenol

1.1 Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei wariant gofal sylfaenol ar wasanaethau cyhyrysgerbydol 29 y cant (Arddangosyn 3). Gwariant y Bwrdd Iechyd fesul pen o’r boblogaeth ar wasanaethau cyhyrysgerbydol gofal sylfaenol oedd yr uchaf yng Nghymru yn 2013 (£19.60). (Arddangosyn 3).

Arddangosyn 3: Gwariant cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol ar ofal sylfaenol rhwng 2010 a 2013




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.2 Cyfran yr arian cyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol oedd yr uchaf yng Nghymru yn 2010-11 ac yn 2011-12, a’r uchaf ond un yn 2012-13 (Arddangosyn 4). Byddai hyn yn awgrymu bod gan y Bwrdd Iechyd ffocws mwy cadarnhaol ar ddarpariaeth gwasanaethu cyhyrysgerbydol o fewn gofal sylfaenol, gyda gwariant gofal sylfaenol yn 15.4 y cant o’r cyfanswm gwariant yn 2012-13 o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (11.2 y cant).

Arddangosyn 4: Cyfran cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2012-13

| Bwrdd Iechyd | % cyllideb y rhaglen MSK a wariwyd ar ofal sylfaenol | | |
|---|---|---|---|
| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 11.3 | 9.8 | 10.8 |
| Aneurin Bevan | 10.2 | 10.2 | 9.7 |
| Betsi Cadwaladr | 10.7 | 9.3 | 9.9 |
| Caerdydd a'r Fro | 11.9 | 10.6 | 12.0 |
| Cwm Taf | 16.0 | 15.1 | 15.4 |
| Hywel Dda | 9.3 | 9.0 | 10.3 |
| Addysgu Powys | 9.9 | 14.0 | 17.1 |
| **Cymru Gyfan** | **11.1** | **10.4** | **11.2** |

Ffynhonnell: Stats Cymru

1.3 Fel rhan o'n gwaith, aethom ati i adolygu lefel y mynediad uniongyrchol sydd gan feddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol, a allai atal atgyfeiriadau diangen i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Byddai gwasanaethau o'r fath yn cynnwys gwasanaethau poen cymunedol, rhaglenni hunanreoli, rhaglenni ffordd o fyw cymunedol, gwasanaethau ffisiotherapi cymunedol a gwasanaethau therapi ceiropractig. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo nifer o wasanaethau y gall meddygon teulu eu cyrchu yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth y gwasanaethau'n cymharu'n llai ffafriol â rhai rhannau eraill o Gymru. (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: Mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol

| | Abertawe Bro Morgannwg | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Hywel Dda | Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffisiotherapi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Ffisiotherapydd â rôl ychwanegol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gwasanaethau poen cymunedol | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Meddyg teulu gyda diddordeb arbennig mewn cyflyrau/anhwylderau orthopedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Gwasanaethau ychwanegol perthnasol i gyflyrau/ anhwylderau orthopedig | | Yn rhannol | | | | | |
| Gwell mynediad at wasanaethau diagnostig | | ✓ | Yn rhannol | | | | ✓ |
| Therapi ceiropractig | | | | | | | |
| Rhaglenni cymunedol ar ffordd o fyw/colli pwysau | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Rhaglenni hunanreoli | ✓ | | | | | | |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.4 Fel rhan o'n Harolwg o Gleifion sy'n cael Llawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd, gofynnwyd i gleifion a oeddent wedi derbyn amrywiaeth o ymyriadau amgen cyn cael y llawdriniaeth. Cafodd canran uwch o gleifion gyngor ffisiotherapi, rhaglenni ymarfer corff a chyngor ar reoli pwysau na chyfartaledd Cymru gyfan, sy'n beth cadarnhaol. Cyfran y cleifion oedd yn derbyn triniaeth lliniaru poen oedd yr isaf yng Nghymru (6.5 y cant), sydd yn gadarnhaol hefyd gan ei fod yn awgrymu bod meddygon teulu yn edrych ar driniaethau amgen yn hytrach na dewis rhagnodi meddyginiaeth yn syth (Arddangosyn 6).

Arddangosyn 6: Canran y cleifion a dderbyniodd ymyriad amgen cyn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd


| | Cwm Taf | **Cyfartaledd Cymru gyfan** |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a gafodd ymyriad lleddfu poen cyn y llawdriniaeth | 63.6 | **74.9** |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor neu driniaeth ffisiotherapi cyn y llawdriniaeth | 33.3 | **26.1** |
| Canran y cleifion a gafodd raglen ymarfer corff cyn y llawdriniaeth | 36.4 | **23.4** |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor ar reoli pwysau cyn y llawdriniaeth | 15.2 | **9.1** |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Atgyfeiriadau gan feddygon teulu

1.5 Mae cyfraddau atgyfeirio meddygon teulu yn y Bwrdd Iechyd ym maes orthopedeg fesul 100,000 yn is na chyfartaledd Cymru gyfan bellach. Mae'r gyfradd atgyfeirio wedi lleihau'n ddramatig ers 2012-13 (Arddangosyn 7), ac mae'r Bwrdd Iechyd yn un o ddim ond dau fwrdd iechyd yng Nghymru sydd wedi profi tuedd am i lawr. Mae cyfradd y trigolion 65 oed a hŷn yn nau brif dalgylch y Bwrdd Iechyd ymhlith yr 18.1 y cant yn Rhondda Cynon Taf a 17.5 y cant ym Merthyr Tudful. Mae cyfradd y trigolion 65 oed a throsodd yng Nghymru yn 19.5 y cant. Mae oedran y boblogaeth yn ffactor sy'n cyfrannu at gyfraddau cyfeirio orthopedig yng Nghymru, fyddai'n dangos efallai nad yw'r galw lleol am wasanaethau orthopedig yn 2012-13 wedi cael ei reoli'n effeithiol.


Arddangosyn 7: Atgyfeiriadau gan feddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-2014




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.6 Yn nodweddiadol, roedd y Bwrdd Iechyd yn arfer derbyn cyfartaledd o dros 800 o atgyfeiriadau fesul mis calendr gan feddygon teulu. Mae nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer orthopedeg bellach yn is, gyda'r cyfartaledd rhwng Ebrill 2013 a Ionawr 2015 oddeutu 523 y mis. (Arddangosyn 8).

Arddangosyn 8: Nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu a dderbyniwyd rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2015




Ffynhonnell: Stats Cymru

## Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol

1.7 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gysyniad CMATS yn 2012. Amcan CMATS yw darparu man cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer asesu a thrin poen a chyflyrau cyhyrysgerbydol er mwyn sicrhau mai'r atgyfeiriadau cywir i wasanaethau orthopedeg sy'n cyrraedd gofal eilaidd. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS yn ei strwythur presennol yn 2011 ar draws y ddau leoliad. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir ar sut y dylai CMATS weithredu. Mae cydymffurfiaeth leol â rhai o egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, yn amrywiol. (Arddangosyn 9).


Arddangosyn 9: Cydymffurfiaeth ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru ar CMATS

| Egwyddor | Cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd hwn | Nifer y byrddau iechyd ledled Cymru sy'n cydymffurfio |
|---|---|---|
| Clinigau sy'n cael eu cynnal mewn cyfuniad o ganolfannau lleol a gofal eilaidd | ✗<br>(Pob clinig mewn ysbyty). | Pob un ac eithrio Aneurin Bevan a Chwm Taf |
| Bydd pob atgyfeiriad cyhyrysgerbydol (ac eithrio eithriadau penodol) yn mynd i'r CMATS | ✓ | Tri<br>(Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf) |
| Mae gan staff fynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnosteg | ✓ | Pob un ac eithrio Powys |
| **Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Ffisiotherapyddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un |
| Podiatryddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un ac eithrio Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro |
| Meddygon teulu â gwybodaeth, sgiliau a diddordeb mewn cyflyrau/cwynion cyhyrysgerbydol | ✗ | Pedwar<br>(Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro) |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.8 Er mai prin iawn yw'r mewnbwn meddygol, mae lefelau staffio'r CMATS yn cymharu'n sylweddol fwy ffafriol na'r holl dimau eraill yng Nghymru. (Arddangosyn 10). Mae CMATS y Bwrdd Iechyd yn borth i bob atgyfeiriad, felly byddai cydnabyddiaeth y byddai lefelau staffio'n uwch na CMATS eraill nad ydynt yn gweithredu fel porth; fodd bynnag, mae'r CMATS yn gweithio'n agos gyda'r adran ffisiotherapi ac felly gall rhai o'r lefelau staffio gynnwys staff sydd hefyd yn darparu ffisiotherapi generig y tu allan i gylch gorchwyl CMATS. Fodd bynnag, gallai'r gostyngiad yn y gyfradd atgyfeiriadau gan feddygon teulu i'r gwasanaeth, fod awgrymu hefyd nad yw'r lefelau staffio a sefydlwyd gyntaf yn 2011 yn briodol erbyn hyn.

Arddangosyn 10: Lefelau staffio CMATS




Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.9 Un o egwyddorion CMATS yw asesu, gwneud diagnosis a thrin cleifion lle bo hynny'n berthnasol i'r arbenigwyr o fewn CMATS a lle y tybir ei bod yn bosibl y gall y claf gael ei weld a'i drin mewn uchafswm o ddau ymweliad ('asesiadau wyneb yn wyneb') Dylai'r cleifion hynny sydd angen triniaeth sy'n fwy dwys gael eu hatgyfeirio i wasanaethau mwy priodol ar y pwynt atgyfeirio. Yn ôl data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, cafodd 84.9 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd asesiad wyneb yn wyneb. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu darparu'r data hwn; fodd bynnag, o gymharu â'r rhai oedd yn gallu darparu'r data hwn, mae hwn yn cymharu'n sylweddol uchel. Ar draws lleoliadau'r Bwrdd Iechyd, mae amseroedd aros i weld y CMATS am asesiad wyneb yn wyneb yn cael eu cynnwys yn y llwybr atgyferio a thriniaeth ar gyfer ffiseotherapi. Mae hyn yn mynd yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Yr amser aros cyfartalog rhwng atgyfeirio ac asesiad wyneb yn wyneb yn y Bwrdd Iechyd yw 13 wythnos, ac nid yw hynny'n cyrraedd targed wyth wythnos Llywodraeth Cymru. Mae'r amser aros yn cyd-fynd â gwasanaethau ffisiotherapi ac mae'n awgrymu fod CMATS yn cael ei weithredu fel gwasanaeth ffisiotherapi.

1.10 Yn ôl data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, dim ond 7.7 y cant o gleifion drwy CMATS gafodd eu cyfeirio at wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Mae hyn yn gadarnhaol, gan ei fod yn awgrymu bod 93 y cant wedi cael eu cyfeirio i rywle arall. Fodd bynnag, mae canran uchel o gleifion yn cael eu rheoli o fewn CMATS, ac efallai y bydd angen cyfeirio rhai ohonynt at wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd yn y pen draw. Gallai cyflwyno'r CMATS gynhyrchu galw newydd na fyddai wedi bodoli o'r blaen, o bosibl, ac felly efallai na fyddai rhai o'r cyfeiriadau a dderbyniwyd gan CMATS wedi cael eu hatgyfeirio at orthopedeg pe na byddai'r gwasanaeth ar gael.


# Rhan 2

# 2 Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig

## Gwasanaethau i gleifion allanol

2.1 Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o drin 95 y cant o gleifion o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio, dylai byrddau iechyd fod yn gweithio ar sail targed mewnol o rhwng 12 a 14 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf cleifion allanol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar sail targed mewnol o 16 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf, sy'n rhoi rhagor o bwysau ar elfennau diagnostig a chleifion preswyl y llwybr triniaeth i gyrraedd y targed aros o 26 wythnos. Mae canran y cleifion sy'n aros am fwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf wedi amrywio o sero y cant i 6.4 y cant dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ym mis Ionawr 2015, roedd canran y cleifion oedd yn aros am fwy na 26 wythnos yn 5.6 y cant, oedd yn is na sefyllfa Cymru gyfan. (Arddangosyn 11). Gall tuedd gynyddol at amseroedd amser estynedig awgrymu nad oes digon o gapasiti cleifion allanol i fodloni'r amrywiadau yn y galw am y gwasanaeth.


Arddangosyn 11: Canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

2.2 Mae’r gallu i fodloni gofynion cleifion allanol yn dibynnu ar lefelau staffio meddygol byrddau iechyd. O safbwynt capasiti meddygon ymgynghorol, mae hefyd yn bwysig ystyried a oes cydbwysedd priodol ym mhob cynllun swydd unigol rhwng sesiynau gofal clinigol uniongyrchol cleifion allanol a theatrau. Nifer y meddygon ymgynghorol fesul 1,000 o atgyfeiriadau yn y Bwrdd Iechyd yw’r uchaf ond un yng Nghymru, a nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol ar gyfer gweithgarwch cleifion yn benodol yw’r uchaf yng Nghymru. (Arddangosyn 12). Mae’r dangosyddion hyn yn awgrymu bod digon o gapasiti gan feddygon ymgynghorol i ateb y galw presennol am wasanaethau i gleifion allanol. Mae’n bosib y gallai fod effaith ar argaeledd meddygon ymgynghorol ar gyfer gwasanaethau i gleifion preswyl megis sesiynau theatr os oes gormod o amser meddygon ymgynghorol yn cael ei glustnodi ar gyfer cleifion allanol.

Arddangosyn 12: Staffio meddygon ymgynghorol a sesiynau cleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau ar gyfer 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru ac Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

2.3 Unwaith mae sesiwn i gleifion allanol wedi’i chynllunio, mae’n bwysig cynnal y sesiynau hyn gan fod canslo clinig yn creu pwysau ychwanegol o fewn y system gan fod rhaid trin cleifion o fewn 26 wythnos o hyd. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar ei gyfradd o glinigau i gleifion allanol a ganslwyd yn 2012-13 drwy ein Harolwg o Fyrddau Iechyd. Nid yw llawer o fyrddau iechyd eraill yn gallu cyflwyno’r data hwn ar gyfer clinigau orthopedeg.


2.4 Mae clinigau’n cynnwys cymysgedd o apwyntiadau newydd a rhai dilynol ar sail galw am y gwasanaeth. Mae’n bosibl y bydd angen apwyntiad dilynol ar rai cleifion cyn y gall gweithwyr proffesiynol wneud penderfyniad clinigol, ond i gleifion eraill, mae un apwyntiad claf allanol yn ddigon. Nid oes angen i rai cleifion sydd angen apwyntiadau dilynol gael eu gweld gan feddyg neu mewn ysbyty o reidrwydd. Felly, dim ond os oes angen i gleifion ddychwelyd y dylid gofyn iddynt wneud hynny, gan sicrhau eu bod yn mynd i’r lleoliad priodol. Bydd hyn yn helpu i osgoi apwyntiadau dilynol diangen, a all ddisodli cleifion sydd angen apwyntiadau cyntaf ar frys.

2.5 Ar gyfer y cyfnod 2013-14, y gymhareb o apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd oedd yr uchaf ond un yng Nghymru, sef 2.3 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd. Mae hyn hefyd yn uwch na tharged blaenorol Llywodraeth Cymru (1.9).

2.6 Gall newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau i gleifion allanol helpu i leihau nifer ymweliadau cleifion â’r ysbyty. Gallai hyn gynnwys clinigau poeth, neu glinigau rhithwir, sy’n defnyddio technoleg fodern i gynnal ymgynghoriadau meddygol i gleifion. Yn ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd 87.5 y cant o gleifion yn teimlo fod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio cydgysylltu’r ymweliadau amrywiol yr oedd angen iddynt eu gwneud. Mae hyn ychydig o dan gyfartaledd Cymru gyfan (88.3 y cant).

2.7 Gall cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau a’r gyfradd a ganslodd apwyntiadau ddangos a yw apwyntiadau yn briodol. Mae cyfradd y cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (8.7 y cant), a’r ail uchaf yng Nghymru. Yn ogystal, cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau dilynol yn y Bwrdd Iechyd yw’r uchaf yng Nghymru (13 y cant). Gallai hyn awgrymu bod nifer o’r apwyntiadau dilynol yn ddiangen. Targedau Llywodraeth Cymru yw pump y cant ar gyfer apwyntiadau newydd a saith y cant ar gyfer apwyntiadau dilynol, sy’n dangos bod cryn le i wella. (Arddangosyn 13). Yn yr Arolwg o’r Bwrdd Iechyd, nododd y Bwrdd Iechyd fod 5.7 y cant o apwyntiadau orthopedeg newydd wedi’u canslo gan gleifion, a 10.7 y cant o apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo llawdriniaethau, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.


Arddangosyn 13: Cyfraddau cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru

2.8 Drwy ddefnyddio gwybodaeth ariannol a gyflwynir gan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, nodwyd bod derbyniadau cleifion allanol orthopedeg yn costio £71.92 yn y Bwrdd Iechyd, a'r ffigur hwn oedd yr isaf yng Nghymru yn 2011-12, a'i fod wedi gostwng dros 25 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Arddangosyn 14). Bydd lefel y gweithgarwch yn yr adrannau cleifion allanol yn effeithio ar gost derbyn cleifion allanol, ynghyd â chyfran uwch o dderbyniadau newydd, er y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd.

Arddangosyn 14: Cost derbyn cleifion orthopedig allanol yn 2010-11 a 2011-12





Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

## Gwasanaethau ffisiotherapi

2.9 Yn gyffredinol, mae cleifion sydd angen ffisiotherapi i drin problemau cyhyrysgerbydol yn cael eu gweld yn llai cyflym yn y Bwrdd Iechyd na mewn rhannau eraill o Gymru, er bod perfformiad wedi gwella dros y misoedd diwethaf. Yn y cyfnod rhwng Ionawr 2014 a Chwefror 2015, 78.1 y cant o gleifion oedd yn aros llai nag wyth wythnos yn y Bwrdd Iechyd, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan oedd yn 82.3 y cant. (Arddangosyn 15). Cyrhaeddodd y perfformiad benllanw ym mis Chwefror 2015 (96 y cant). Mae perfformiad o fewn y Bwrdd Iechyd ychydig yn well yn Ysbyty Tywysog Siarl nag yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Gwaethygodd y perfformiad yn sylweddol yn ystod 2011 sy'n cyd-fynd â'r cyfnod pan gafodd y CMATS ei sefydlu.

2.10 Yn ôl targed Llywodraeth Cymru, ni ddylai unrhyw glaf aros mwy nag 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi. Rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Rhagfyr 2014, ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd y targed hwn. Ers Ionawr 2015, mae perfformiad wedi gwella, gyda dim un claf yn aros mwy na 14 wythnos.

Arddangosyn 15: Amseroedd aros ar gyfer ffisiotherapi (oedolion)





Ffynhonnell: Stats Cymru

2.11 Mae gwasanaethau ffisiotherapi ar gyfer cleifion allanol yn cael eu darparu mewn amrywiaeth eang o leoliadau ledled y Bwrdd Iechyd er, yn wahanol i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid oes darpariaeth ffisiotherapi mewn meddygfeydd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno proses i gleifion gyfeirio eu hunain hyd yma, ac mae'n rhaid i gleifion sydd angen ffisiotherapi gael eu hatgyfeirio i'r adran gan weithiwr iechyd proffesiynol o hyd. Mae byrddau iechyd eraill wedi cyflwyno hunangyfeirio ac mae hyn wedi rhoi'r cyfle i gleifion gysylltu â'r adran am gyngor cyn i atgyfeiriad gael ei wneud, neu i gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill mwy addas. Yn debyg i weddill Cymru, mae darpariaeth gwasanaethau ffisiotherapi yn parhau i fod yn wasanaeth pum diwrnod traddodiadol, ar y cyfan, yn ystod yr wythnos waith.

## Gwasanaethau radioleg

2.12 Bydd angen i gleifion â phroblemau cyhyrysgerbydol gael profion radiolegol gan amlaf. Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014 roedd mynediad at brofion radioleg yn dilyn cais gan feddyg teulu yn well na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 16). Yn ystod y cyfnod hwn, arhosodd 27.8 y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd am fwy nag wyth wythnos o gymharu â 33 y cant ledled Cymru. Nid yw perfformiad y Bwrdd Iechyd cystal ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol at y gwasanaeth radioleg, gyda chyfartaledd o 37.5 y cant o gleifion yn aros am dros wyth wythnos o gymharu â 23.2 y cant ledled Cymru. (Arddangosyn 16). Mae data ers Ebrill 2014 yn dangos fod amseroedd aros yn y Bwrdd Iechyd yn codi a bod canran y cleifion oedd yn aros mwy nag wyth wythnos ym mis Chwefror 2015 yn uwch na sefyllfa Cymru gyfan.

Arddangosyn 16: Canran y cleifion sy’n aros dros wyth wythnos am brofion radioleg




Ffynhonnell: Stats Cymru

2.13 Ledled Cymru yn 2013-14, roedd 23 y cant o’r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddyg teulu a 39 y cant o’r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol yn geisiadau am sganiau MRI. Mae cyfraddau’r atgyfeiriadau MRI yn y Bwrdd Iechyd yn is ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu (16 y cant) ond yn uwch ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol (44 y cant). Mae’r patrwm atgyfeirio hwn yn debyg yn y ddau brif safle ysbyty. (Arddangosyn 17).


Arddangosyn 17: Cyfran y ceisiadau radioleg am sganiau MRI

| Safle ysbyty | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu am sganiau MRI | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol am sganiau MRI |
|---|---:|---:|
| Ysbyty Tywysog Siarl | 15 | 42 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 18 | 46 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **23** | **39** |

Ffynhonnell: Stats Cymru

2.14 Mae'r cynnydd yn y galw am sganiau MRI yn gallu rhoi pwysau ar adrannau radioleg byrddau iechyd. Mae amseroedd aros ar gyfer sganiau MRI yn hirach yn y Bwrdd Iechyd nag ar draws Cymru. Er hynny, ers mis Ionawr 2014, mae canran y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos wedi lleihau. Ym mis Chwefror 2015, roedd cyfartaledd o 20.4 y cant o gleifion wedi aros mwy nag wyth wythnos am eu profion MRI. Mae cyfartaledd Cymru gyfan yn is, sef 15.2 y cant (Arddangosyn 18).

Arddangosyn 18: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am sgan MRI




Ffynhonnell: Stats Cymru

# Rhan 3

## 3 Gwasanaethau i gleifion preswyl

### Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty

3.1 Ar ôl i'r clinigydd benderfynu mai ymyriad llawfeddygol yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â phroblemau cyhyrysgerbydol, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys enw'r claf ar y rhestr a threfnu dyddiad ar gyfer asesiad cyn y llawdriniaeth i sicrhau bod y claf yn iach yn glinigol. Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith ledled y Bwrdd Iechyd ac maent yn gyson yn y ddau safle. (Arddangosyn 19).

Arddangosyn 19: Trefniadau asesu cyn llawdriniaeth


| | Ysbyty Tywysog Siarl | Ysbyty Brenhinol Morgannwg |
|---|---|---|
| Adran bwrpasol | ✓ | ✓ |
| Dan arweiniad nyrs | ✓ | ✓ |
| Ar gael bum niwrnod yr wythnos | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth orthopedeg penodol | ✓ | ✓ |
| Cydgysylltu trefnu apwyntiadau | Cyfuniad o glercod asesu cyn llawdriniaeth, tîm amseroedd aros, ysgrifenyddion | Cyfuniad o glercod asesu cyn llawdriniaeth, tîm amseroedd aros, ysgrifenyddion |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

3.2 Yn ôl ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd pob un o'r cleifion wedi cael asesiad cyn y llawdriniaeth cyn eu derbyn i'r ysbyty. Dylid rhoi rhybudd rhesymol cyn cwblhau asesiadau cyn llawdriniaeth er mwyn lleihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu canslo yn annisgwyl os oes angen ymyriad arall ar glaf cyn y llawdriniaeth. Yn y Bwrdd Iechyd, roedd 73 y cant o gleifion yn derbyn asesiad mwy na thair wythnos cyn eu derbyn i'r ysbyty.

3.3 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae'n bwysig ystyried manteision y llawdriniaeth ac osgoi rhoi triniaethau sydd ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn ôl y gwaith ymchwil[2]. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, nodwyd bod cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer trigolion Merthyr Tudful, ond yn is ar gyfer trigolion Rhondda Cynon Taf (Arddangosyn 20).

Arddangosyn 20: Cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

[2] Mae'r triniaethau a adolygwyd yn cynnwys datgywasgu ar y meingefn, torri disg rhyngfertebrol, uno cymal arall y meingefn, dileu nam ar y meingefn, biopsi ar y meingefn, dadnerfogi cymal ffased meingefn fertebra ac archwilio'r meingefn.

3.4 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae hefyd yn bwysig ystyried y posibilrwydd o'i drin fel claf allanol er mwyn osgoi ei gadw yn yr ysbyty yn ddiangen. Mae'r BADS wedi argymell nifer o driniaethau orthopedig sy'n addas ar gyfer cleifion allanol. Yn y gorffennol roedd y rhain yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru, gyda tharged o 80 y cant. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13, roedd canran y triniaethau orthopedig a argymhellir a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol yn nau brif safle ysbyty'r Bwrdd Iechyd yn is na tharged Llywodraeth Cymru ac yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad Ysbyty Tywysog Siarl yn 65 y cant ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn 70 y cant (Arddangosyn 21).

Arddangosyn 21: Canran y triniaethau orthopedig a argymhellwyd gan BADS a gwblhawyd fel cleifion allanol 2011-12





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

Sylwer: Mae cyfleusterau ysbytai preifat a gwblhaodd waith ar ran y GIG wedi eu cynnwys.

3.5 Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y canlyniad gorau posibl yn sgil ymyriad llawfeddygol, gall byrddau iechyd ddarparu cefnogaeth cyn ac ar ôl llawdriniaeth. Gall y rhaglen Adferiad Gwell Ar ôl Llawdriniaeth (ERAS) gynnwys sefydlu 'ysgol y cymalau' i ddarparu sesiynau addysgiadol ar gyfer cleifion sydd ar fin cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd. Mae cefnogaeth yn cynnwys cyfle i gleifion ymarfer ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd yn eu helpu i wella yn gynt ar ôl y llawdriniaeth. Cynhelir 'ysgol y cymalau' cyn derbyn claf i ysbyty, ac mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod egwyddor 'ysgol y cymalau' yn helpu'r claf i wella yn gynt ar ôl llawdriniaeth a'i helpu i aros yn yr ysbyty am lai o amser. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal 'ysgol y cymalau' yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg; ond nid yw 'ysgol y cymalau' yn Ysbyty Tywysog Siarl yn weithredol ar hyn o bryd.

3.6 Roedd canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan rhwng mis Ionawr 2013 mis Ionawr 2014; roedd ar ei uchaf ym mis Mai 2103 (35 y cant). Ers mis Chwefror 2014 roedd perfformiad wedi gostwng o dan gyfartaledd Cymru gyfan ac roedd hi'n ymddangos ei fod yn gwella, ond ers Tachwedd 2014, mae perfformiad wedi dirywio. (Arddangosyn 22).

Arddangosyn 22: Canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ionawr 2015





Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

## Derbyniadau

3.7 Er mwyn osgoi aros dros nos yn ddiangen yn yr ysbyty a manteisio'n llawn ar nifer y gwelyau sydd ar gael, mae'n arfer da derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. Targed Llywodraeth Cymru yw bod o leiaf 64 y cant o gleifion yn cael eu derbyn ar yr un diwrnod â'u llawdriniaeth. Y perfformiad ar draws safleoedd ysbyty'r Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru. (Arddangosyn 23). Yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg mae llai na 29 y cant o gleifion yn cael eu derbyn ar yr un diwrnod. Perfformiad Ysbyty Tywysog Siarl yw'r gwannaf yng Nghymru (saith y cant).

Arddangosyn 23: Canran y cleifion orthopedig dewisol a dderbyniwyd ar ddiwrnod eu llawdriniaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.8 Mae gan y Bwrdd Iechyd wardiau pwrpasol ar gyfer gweithgarwch orthopedeg dewisol, gyda wardiau ar wahân ar gyfer achosion trawma orthopedig. Mae nifer y gwelyau trawma ac orthopedeg sydd ar gael wedi gostwng naw y cant dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda chyfartaledd o 97.8 gwely ar gael bob dydd ar draws y ddau safle yn 2013-14. Mae cyfradd defnyddio'r gwelyau hyn wedi amrywio rhwng 86.5 y cant yn 2010-11 ac 82.2 y cant yn 2013-14. Mae hyn yn cymharu â chyfradd defnyddio gwelyau optimaidd o 85 y cant. Mae amrywiaeth rhwng y safleoedd. Roedd cyfradd defnyddio gwelyau yn Ysbyty Tywysog Siarl yn 90.5 y cant yn 2013-14, ac yn 73.4 y cant yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. (Arddangosyn 28).

Arddangosyn 24: Nifer y gwelyau sydd ar gael a chyfraddau defnyddio gwelyau 2013-14

| | Gwelyau sydd ar gael | Cyfradd defnyddio gwelyau (%) |
|---|---|---|
| Ysbyty Tywysog Siarl | 50.1 | 90.5 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 47.7 | 73.4 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

## Yn yr ysbyty

3.9 Mae theatrau llawdriniaeth yn rhan bwysig o arhosiad claf orthopedig dewisol mewn ysbyty, a gall oedi neu ganslo llawdriniaeth arwain at brofiad gwael i gleifion a defnydd aneffeithlon o adnoddau. Gall canslo llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth arwain hefyd at danddefnyddio capasiti theatrau. Roedd cyfraddau defnyddio misol y Bwrdd Iechyd o theatrau orthopedeg dros gyfnod o dri mis rhwng Ionawr a Mawrth 2013 rhwng 80 a 93 y cant. Roedd perfformiad Ysbyty Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn debyg. Mae hyn yn berfformiad cryf ond mae islaw targed 95 y cant Llywodraeth Cymru o hyd. Ni chawsom wybodaeth am berfformiad defnyddio theatrau gan bob bwrdd iechyd, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

Arddangosyn 25: Defnyddio theatrau

| | Ionawr 2013 | Chwefror 2013 | Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| Ysbyty Tywysog Siarl | 80% | 82% | 93% |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 82% | 89% | 90% |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru


3.10 Cyfradd y Bwrdd Iechyd o sesiynau theatr orthopedig a ganslwyd yn 2012-13 oedd 23.6 y cant yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg a 34.7 y cant yn Ysbyty Tywysog Siarl. Ar draws y sesiynau a gynhaliwyd, canran y llawdriniaethau a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd oedd 16.5 y cant yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac 14.5 y cant yn Ysbyty Tywysog Siarl. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed o ddau y cant ar gyfer llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Er nad yw cyfradd y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â chanslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn unig, mae angen archwilio'r cyfraddau uwch hyn i ddeall y rhesymau pam y mae llawdriniaethau yn cael eu canslo. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo llawdriniaethau, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

## Rhyddhau cleifion

3.11 Hyd arhosiad cyfartalog cleifion orthopedig dewisol yw 4.5 diwrnod, sy'n uwch na tharged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru. Hwn yw'r hyd arhosiad hiraf yng Nghymru. Mae amrywiaeth ar draws y ddau brif safle ysbyty gyda hyd arhosiad cyfartalog yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ychydig yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru (4.1 diwrnod). Yn Ysbyty Tywysog Siarl, 5.1 diwrnod oedd hyd arhosiad cyfartalog.

3.12 Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd yn cydymffurfio â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y triniaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Yn Ysbyty Tywysog Siarl hyd arhosiad cyfartalog yn dilyn gosod pen-glin newydd yw'r hiraf yng Nghymru. Hyd arhosiad cyfartalog yn dilyn gosod clun newydd yw'r uchaf ond un yng Nghymru. (Arddangosyn 26). Gallai hyd arhosiad cyfartalog gael ei leihau drwy dderbyn mwy o gleifion i'r ysbyty ar ddiwrnod eu llawdriniaeth yn hytrach nag o flaen llaw.

Arddangosyn 26: Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd Ebrill 2012 a Hydref 2013





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.13 £3,960 oedd y gost gyfartalog o gyfnod orthopedig dewisol yn yr ysbyty yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13, oedd yn llai na chyfartaledd Cymru gyfan. Bydd hyd arhosiad yn dylanwadu ar gost cyfnod yn yr ysbyty, ond bydd costau eraill cysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd. Gan fod hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer triniaethau orthopedig dewisol yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, mae'r gost is na'r cyfartaledd felly'n debyg o gael ei effeithio gan y costau is sy'n gysylltiedig ag agweddau ar staffio, cyfarpar a chyffuriau.

3.14 Un ffactor sy'n dylanwadu ar gost triniaeth yw'r gost sy'n gysylltiedig â phrosthesisau. Roedd cost gyfartalog prosthesisau fesul cyfnod gofal yn y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru yn 2010-11 a 2011-12, gyda gostyngiad o naw y cant yn y gost. (Arddangosyn 27).


Arddangosyn 27: Cost gyfartalog prosthetig fesul cyfnod yn 2010-11 a 2011-12




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

3.15 Mae cost diwrnod gwely claf preswyl dewisol (£1,133) yn is na chost gyfartalog Cymru gyfan hefyd (Arddangosyn 28). Mae'r gost ar gyfer claf allanol orthopedig dewisol (£1,225) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 28). Pe bai'r perfformiad yn erbyn targed Llywodraeth Cymru ar gyfer hyd arhosiad cyfartalog yn gwella yn y ddau ysbyty i gyrraedd y lefel a argymhellir (64 y cant), gallai'r gostyngiad yn hyd arhosiad cleifion o ganlyniad i hyn ryddhau adnoddau gwerth tua £1.24 miliwn y flwyddyn, neu ryddhau capasiti i gynyddu llif cleifion.

Arddangosyn 28: Cost gyfartalog fesul claf allanol orthopedig dewisol a diwrnod gwely claf preswyl 2012-13




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru


# Rhan 4

# 4 Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau

## Trefniadau dilynol

4.1 Ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty, dylai cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd gael apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis ar ôl eu rhyddhau. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod 98 y cant o gleifion oedd wedi cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd dros gyfnod o ddau fis wedi cael eu hapwyntiad dilynol o fewn yr amserlenni penodedig. Mae hyn yn cyd-fynd â'n harolwg cleifion, a ddangosodd fod pob claf gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd a ymatebodd i'n harolwg wedi cael apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty (Arddangosyn 29). Roedd 97 y cant o gleifion wedi cael yr apwyntiad dilynol o fewn yr amserlenni penodedig. Hwn oedd y lefel perfformiad uchaf a adroddwyd yng Nghymru.

Arddangosyn 29: Canran y cleifion yn yr arolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd a gafodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Canlyniadau a phrofiad cleifion

4.2 I lawer o gleifion, gall llawdriniaeth fod yn brofiad cadarnhaol sy'n newid eu bywydau ac yn gwella eu hansawdd bywyd yn sylweddol. Ond gall pethau fynd o chwith ambell waith. Fel rhan o'n gwaith aethom ati i adolygu amrywiaeth o ddangosyddion i ddeall i ba raddau y mae'r profiadau hyn yn niweidiol i gleifion yn y tymor byr a'r hirdymor.

4.3 Os yw claf yn dal haint mewn safle llawfeddygol (SSI) mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo aros yn hirach yn yr ysbyty. Aethom ati i adolygu cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd. Mae tua 35 y cant o weithgarwch orthopedig dewisol yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r triniaethau hyn. Mae cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ar wahân i heintiau mewn safleoedd llawfeddygol yn Ysbyty Tywysog Siarl (2.6 y cant) (Arddangosyn 30). Targed Llywodraeth Cymru yw sero y cant.

Arddangosyn 30: Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer arthrosgopi cluniau a phengliniau 2012-13

| Ysbyty | Cyfradd SSI (cluniau) | Cyfradd SSI (pengliniau) |
|---|---|---|
| Tywysog Siarl | 2.6 | 1.7 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 1.0 | 1.4 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **1.5** | **1.8** |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.4 Ar gyfer yr un cyfnod, nodwyd mai cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun neu ben-glin newydd a'r gyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedeg yw'r isaf yng Nghymru. Mae'r gyfradd marwolaethau o fewn 30 diwrnod i ryddhau claf o'r ysbyty yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. (Arddangosyn 31).


Arddangosyn 31: Cyfraddau aildderbyn cleifion a chyfraddau marwolaeth ym maes llawdriniaeth orthopedig ddewisol

| Dangosydd | Cwm Taf | **Cyfartaledd Cymru gyfan** |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod clun newydd | 0.3 | **0.9** |
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd | 0.0 | **0.1** |
| Marwolaethau yn yr ysbyty fesul 100 o dderbyniadau orthopedig dewisol | 0.00 | **0.06** |
| Marwolaethau o fewn 30 diwrnod o ryddhau cleifion orthopedig dewisol, fesul 100 o dderbyniadau orthopedig dewisol | 0.13 | **0.10** |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.5 Mae oes clun neu ben-glin artiffisial yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau, ond maen nhw'n gallu para dros 20 mlynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, wrth i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu, mae'r tebygolrwydd o orfod cael llawdriniaeth i ail-wneud y cymal newydd yn cynyddu hefyd. Fodd bynnag, gall yr angen i ail-wneud llawdriniaethau ddangos nad oedd y llawdriniaeth wreiddiol i osod cymal newydd yn effeithiol. Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau oddeutu cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer trigolion Rhondda Cynon Taf, ond y gyfradd ar gyfer ail-wneud llawdriniaethau i osod pengliniau newydd ar gyfer trigolion Merthyr Tudful yw'r uchaf yng Nghymru (1.4 y cant) (Arddangosyn 32).


Arddangosyn 32: Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau fesul 10,000 o’r boblogaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.6 Fel rhan o’n harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, gofynnwyd i gleifion a oedd eu llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. Dywedodd ychydig dan 76 y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd fod y llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn rhannol neu’n sylweddol (Arddangosyn 33). Hwn oedd yr ymateb lleiaf cadarnhaol yng Nghymru. Mae amrywiaeth, fodd bynnag, rhwng safleoedd gyda phob claf o Ysbyty Tywysog Siarl yn dweud fod gwelliannau, o gymharu â 70 y cant o Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Arddangosyn 33: Canran y cleifion a ddywedodd fod eu llawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau’n rhannol neu’n sylweddol




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

4.7 Mae’r Bwrdd Iechyd yn anfon data cleifion at Gofrestrfa Genedlaethol y Cymalau. Nid yw hi’n glir a yw’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio sgoriau clun a phen-glin Rhydychen fel ffordd o fesur effaith llawdriniaeth gosod cymalau newydd. Mae llawer o fyrddau iechyd eraill yn defnyddio sgoriau Rhydychen, sy’n cael ei gydnabod fel arfer da.

4.8 Dywedodd y Bwrdd Iechyd nad oedd wedi cynnal arolygon boddhad cleifion dros y 12 mis diwethaf i gasglu safbwyntiau cleifion orthopedeg. Yn 2012-13, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 44 o gwynion yn ymwneud â gwasanaethau orthopedig. Mae hyn yn cyfateb i 1.2 y cant o’r holl dderbyniadau orthopedig dewisol. Mae llawer o fyrddau iechyd yn methu adrodd ar nifer y cwynion sy’n ymwneud yn benodol â gwasanaethau orthopedeg, felly nid oes modd gwneud cymhariaeth.

# Atodiad 1

## Ffynonellau data

Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lywio'r arolwg gorfodol o wasanaethau orthopedeg yn cynnwys:

- Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru a ofynnodd am ddata amrywiol yn ymwneud ag:
  - Atgyfeiriadau gan feddygon teulu
  - CMATS
  - Cleifion allanol orthopedig
  - Gwasanaethau therapi
  - Gwasanaethau radioleg
  - Asesiad cyn y llawdriniaeth
  - Gwelyau orthopedeg
  - Theatrau llawdriniaeth
  - Staffio meddygol
  - Profiad cleifion
  - Gwybodaeth Ariannol
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru
- Stats Cymru (www.statscymru.cymru.gov.uk)
- Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd
- Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd
- Ffurflenni costau Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru